

Ysgol Gynradd Meidrim Primary School



Polisi Cwynion

Ysgol Gynradd Meidrim

Polisi Cwynion

Cyflwyniad

Credwn fod ein hysgol yn darparu addysg eang a chytbwys i'r holl blant, a bod y Pennaeth a'r staff eraill yn gweithio'n galed iawn i feithrin perthynas positif gyda'r rhieni i gyd a'r gymuned.

Serch hynny, mae'n ofynnol i'r ysgol gael trefniadau yn eu lle mewn achos o gwyn gan aelod o gymuned yr ysgol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r drefn mae'r ysgol yn ei dilyn mewn achlysuron o'r fath.

Os ydy aelod o gymuned yr ysgol yn anhapus gyda'r addysg mae ei plentyn yn ei dderbyn, neu â phryder yn ymwneud â'r ysgol, anogwn y person hwnnw i siarad â'r athro dosbarth yn syth.

Rydym yn delio â phob cwyn yn unol â'r trefniadau a osodwyd gan yr ALL. Os na all yr ysgol ddatrys y gŵyn ei hun, fe ellir gofyn i'r ALL ymyrryd.

Os ydy'r gŵyn yn erbyn y Pennaeth, bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cymryd y camau priodol.

Fe all llywodraethwr ateb cwyn/ymholiad YN UNIG os ydyw'n esboniad o bolisi ac arfer yr ysgol. MEWN POB ACHOS ARALL bydd aelod 'r corff llywodraethol yn gofyn i'r achwynydd i siarad gyda'r Pennaeth.


Nodau ac Amcanion

Mae ein hysgol yn anelu at fod yn deg, agored ac onest wrth ymdrin ag unrhyw gwyn. Rhown ystyriaeth i bob cwyn a delio gydag ef mor gyflym a phosib. Anelwn i ddatrys unrhyw gwyn drwy drafodaeth a chyd-ddealltwriaeth ac , ym mhob achos, rhoddwn fuddiannau'r plentyn o flaen pob mater arall. Darparwn ddigon o gyfleon i unrhyw gwyn gael ei drafod yn llawn, ac yna ei ddatrys.

Gofynion Cyfreithiol

Mae Deddf Addysg 2002 Adran 29 yn gofyn i gyrfff llywodraethol osod cynlluniau yn eu lle i ddelio a chwynion. Dylid ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru (Cylchlythyr 3/2004) wrth lunio'r dulliau gweithredu.

Trefn Gwneud Cwyn



***Atodiad 4 – Canllawiau i'r Pwyllgor Cwynion**

Monitro ac Adolygu

Mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol yn adolygu'r drefn cwynion, er mwyn sicrhau fod pob cwyn yn cael ei thrin yn iawn.

Mae'r Pennaeth yn cofnodi pob cwyn a dderbynnir gan yr ysgol ac mae'r cofnodion yn dangos sut ddatryswyd hwy.

Mae'r llywodraethwyr yn ystyried unrhyw benderfyniadau lleol a chenedlaethol a allai effeithio ar y drefn cwynion ac yn gwneud newidiadau angenrheidiol i'r polisi hwn. Mae'r polisi hwn ar gael ar gais unrhyw riant, fel ei fod wedi ei hysbysu'n gywir am y drefn cwynion.

Atodiad 1

1. Fe all y Cwynydd fynd â ffrind neu berthynas gydag ef i gyfarfod y Pennaeth, pe bai'n dymuno.
2. Os yn berthnasol, fydd y Pennaeth [neu aelod penodedig o'r staff] yn cyfweld unrhyw dystion a chymryd datganiadau wrth y rhai'n gysylltiedig a'r digwyddiad. Os oes cwyn am ddisgybl yn bennaf, bydd y disgybl yn cael ei gyfweld gan aelod o staff y mae'n teimlo'n gyfforddus yn ei gwmi. Os oes cwyn yn erbyn aelod o'r staff, dylid ei hysbysu o'r gwyn, a rhoi cyfle iddo ymateb, gyda chynrychiolydd arall yn bresennol, pe bai'n dymuno.
3. Bydd y Pennaeth [neu aelod penodedig o'r staff] yn sicrhau fod cofnodion ysgrifenedig o gyfarfodydd, sgysiau ffon a dogfennau'n cael eu cadw.

Atodiad 2

1. Unwaith i'r ffeithiau perthnasol gael eu sefydlu, bydd y Pennaeth [neu aelod penodedig o'r staff] yn trefnu cyfarfod gyda'r achwynydd i drafod neu ddatrys y mater. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddilyn gan lythyr yn nodi canlyniadau'r cyfarfod.

Atodiad 3

Anaml iawn mae cwynion yn cyrraedd y cam ffurfiol, ond mae'n bwysig i Gyrff Llywodraethol fod yn barod i ddelio a nhw pe bai angen. Mae'n bwysig nodi fod rhaid cwblhau camau ffurfiol 1 a 2 cyn cyrraedd y cam hwn.

Dylid gwneud cwynion swyddogol ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethol drwy Cadeirydd y Llywodraethwyr. Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cydnabod y gwyn ac yn gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Cwynion.

Dylai cwynion a allai arwain at gamau disgyblu gael eu trin yn unol a chanllawiau priodol yr ysgol.

Bydd y Corff Llywodraethol yn gofalu na fydd unrhyw lywodraethwr yn cael ei gyhuddo o ragfarn drwy sicrhau:

1. nad yw llywodraethwr unigol yn delio a chwyn
2. bod y gwyn yn cael ei chyfeirio at y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn gyflym, os ydy'r camau priodol ar y lefel wedi eu cymryd
3. bod y gwyn ddim yn cael ei chyfeirio i sylw'r corff llywodraethol cyfan tan iddo gael ei ddatrys, ond eto ddim mewn manylder
4. bod Pwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod pawb sy'n gysylltiedig a'r gwyn yn cael gwrandawriad teg. Mae'n bwysig i berson y cwynir yn ei erbyn gael digon o amser, fel arfer 10 diwrnod ysgol, i ystyried yr holl dystiolaeth a chymryd cyngor cyn ymateb a chyn i'r gwrandawriad gael ei gynnal.
5. bydd penderfyniad y pwyllgor yn cael ei roi'n ysgrifenedig i'r achwynydd ac unrhyw berson arall y cwynir yn ei erbyn o fewn pum diwrnod gwaith i gyfarfod y pwyllgor

6. bydd y llythyr hefyd yn cynghori'r achwynydd os ydyw'n anfodlon gyda chanlyniad y trefniant, fe allai ysgrifennu at yr ALL i wneud ymchwiliad pellach. Er hynny, bydd yr ymchwiliad pellach hwn dim ond yn ystyried os ydy'r gwyn wedi ei thrin yn deg yn unol a threfn gwyno'r ysgol; ni fydd yn ailwrando ar y gwyn wreiddiol.

Atodiad 4

Fe ddylai'r drefn isod gael ei dilyn wrth dderbyn cais ysgrifenedig gan yr achwynydd am gwyn i'w symud ymlaen i Gam 4.

1. Dylai Clerc y Corff Llywodraethol ysgrifennu i gydnabod derbyn y cais ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gan hysbysu'r achwynydd y bydd yn cael ei drafod gan Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol o fewn pymtheg diwrnod o'i dderbyn. Dylai'r llythyr hefyd hysbysu'r achwynydd bod ganddo hawl i gyflwyno dogfennau pellach yn berthnasol i'r gwyn a rhaid i'r rhain gael eu derbyn o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod i'w hanfon i aelodau'r pwyllgor.
2. Dylai Clerc y Corff Llywodraethol alw cyfarfod o'r Pwyllgor Cwynion. I sefydlu'r pwyllgor, dylai'r Corff Llywodraethol enwebu grwp o bum llywodraethwr a dewis tri ohono i'r gwrandawriad. Bydd hyn yn sicrhau fod digon o lywodraethwyr ar gael heb wrthdaro buddiannau pan fo'r angen. Dylai'r pwyllgor ethol ei gadeirydd.
3. Ni ddylai aelodau'r pwyllgor gael unrhyw ymwneud blaenorol gyda'r gwyn. Fel arfer, mae'n briodol i'r Pennaeth gael lle ar y pwyllgor. Dylai Cyrff Llywodraethol ystyried manteision cael amrywiaeth o fathau o lywodraethwr ar y Pwyllgor a bod yn sensitif i gyfle cyfartal o fewn cyfansoddiad y pwyllgor.
4. Dylai'r ohebiaeth a dogfennau perthnasol gael eu rhoi i bob aelod o'r pwyllgor. Dylai Cadeirydd y Pwyllgor sicrhau fod yr achwynydd, y Pennaeth ac unrhyw dyst arall yn cael eu hysbysiad ysgrifenedig mewn pum diwrnod o:
 - a) amser a lle cyfarfod y pwyllgor, a
 - b) sail y gwyn, ynghyd a'r holl ddogfennau fydd yr achwynydd neu'r Pennaeth yn dibynnu arnynt, a
 - c) rhoi hawl i'r ddau ochr ddod â chynrychiolydd neu berson o'i ddewis gydag ef/hi, a
 - d) rhoi'r dewis i'r Pwyllgor i gario ymlaen yn absenoldeb yr achwynydd/Pennaeth neu ei gynrychiolydd, os nad oes rheswm da wedi ei roi fel arall.
5. Dylai Cadeirydd y Pwyllgor sicrhau fod cofnodion y cyfarfod yn cael eu gwneud yn gywir.
6. Amcan y cyfarfod yw datrys y gwyn a llwyddo i gymodi rhwng yr ysgol a'r achwynydd. Er hynny, efallai sefydlu'r ffeithiau a gwneud argymhellion yn unig fydd yn bosib, i fodloni'r cwynydd bod ei gwyn wedi ei chymryd o ddifri
7. Dylai Cadeirydd y Pwyllgor geisio sicrhau fod yr achos yn cael ei drin mor anffurfiol â phosib a bod y cwynydd yn teimlo'n ddibryder.

8. Bydd y Pwyllgor yn cynnal y cyfarfod gydag ystyriaeth i'r prif gamau ganlynol. Mae'n rheol na fydd y Pwyllgor yn gweld un ochr yn absenoldeb y llall heblaw am achos lle mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cario ymlaen yn absenoldeb yr achwynydd/Pennaeth yn yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 4d uchod:
- a) Yr achwynydd/cynrychiolydd yn agor gan amlinellu'r gwyn a chyflwyno dogfennau'n dystiolaeth a/neu alw tyst/tystion, os yn berthnasol.
 - b) Fe all y Pennaeth/cynrychiolydd ofyn cwestiynau i'r achwynydd/cynrychiolydd neu unrhyw dyst a alwyd ganddo/ganddi. [Noder. Mae'r cyfle hwn ar gael i ofyn cwestiynau i oleuo materion nid i wneud datganiadau]
 - c) Fe all aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau yn yr un modd
 - d) Y Pennaeth/cynrychiolydd yn ymateb i'r gwyn, cyflwyno dogfennau'n dystiolaeth a/neu alw tyst/ion.
 - e) Fe all yr achwynydd/cynrychiolydd ofyn cwestiynau i'r Pennaeth/cynrychiolydd neu unrhyw un o'r tystion a alwyd ganddo/ganddi.
[Noder. Mae'r cyfle hwn ar gael i ofyn cwestiynau i oleuo materion nid i wneud datganiadau]
 - f) Fe all aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau yn yr un modd
 - g) I ddiweddu'r cyfarfod, dylai Cadeirydd y Pwyllgor esbonio fydd y Pwyllgor yn dod i benderfyniad gan ysgrifennu at y ddau ochr gyda'r canlyniad o fewn pum diwrnod gwaith. Yna dylai'r Pennaeth, yr achwynydd ac unrhyw dystion adael er mwyn i'r Pwyllgor ddod i benderfyniad.

Dylai hyn gynnwys:

- a) y penderfyniad am y gwyn
- b) y dull gweithredu gan yr ysgol, os yn berthnasol, ac
- c) argymhellion ar newidiadau o fewn systemau a threfniadau'r ysgol i sicrhau na fydd problemau tebyg yn codi yn y dyfodol

Dylai'r ysgol sicrhau fod copi o'r holl ohebiaeth wedi ei gadw mewn ffeil yn yr ysgol. Dylai hwn gael ei gadw ar wahan i gofnodion personol plant.

Cyflwynwyd i'r Llywodraethwyr - Hydref 2015 a'i adolygu'n flynyddol

** Adolygir y polisi hwn ym mis Hydref 2016 gan y Corff Llywodraethol llawn